



Cylchlythyr at bawb:

Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru:

- Prif Swyddogion Cynllunio
- Prif Swyddogion Cynllun Datblygu

Copiau i:

- Dderbynwyr Targed (Arolygiaeth Cynllunio Cymru, CLILC, POSW, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, PAW)

Ein cyf : Our ref **CL-01-2009**
(APAA-09-33-004)

Dyddiad : Date 10 Mehefin 2009

Annwyl Gydweithiwr

Cynlluniau Datblygu Lleol
- Arweiniad Pwysig ar Weithdrefnau ar gyfer Hysbysebu Newidiadau Penodol i'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i adneuo

Gyda chydweithwyr yn yr Arolygiaeth Gynllunio, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ystyried ymhellach sut orau i ddelio â'r newidiadau y mae'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn ei bod yn briodol eu gwneud i'r cynllun sydd wedi'i adneuo a'i hysbysebu, a hynny wedi iddo ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus statudol.

Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn nodi bod yn rhaid, wrth gyflwyno cynllun datblygu lleol (LDP) i gael ei archwilio, anfon adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys gwybodaeth am "*y newidiadau a argymhellir gan yr awdurdod mewn ymateb i'r cynrychioliadau perthnasol neu wybodaeth newydd a fyddai'n diwygio'r cynllun wedi'i adneuo heb beryglu cadernid y cynllun ym marn yr awdurdod*" (Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru 2005 , paragraff 4.33 v.d.).

Ar hyn o bryd, mae arweiniad ar wneud newidiadau ffurfiol wedi'r cam adneuo i'w weld ym mharagraff 4.29 *CDLI Cymru* ac yn adran 7.6.3 y *Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol*; mae'r newidiadau hwyr y cyfeirir atynt yma yn cael eu hystyried yn briodol mewn achosion eithriadol ac angenrheidiol yn unig. Rydym yn parhau i gynghori y dylid osgoi gwneud newidiadau wedi'r cam adneuo lle y bo'n bosibl, drwy baratoi'n ofalus y cynllun sydd i'w adneuo drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned, a seilio'r gwaith hwn ar dystiolaeth gref. Rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn adneuo cynlluniau sydd yn eu barn nhw yn gadarn.

Wrth ystyried sylwadau am y cynllun wedi'i adneuo, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cynllunio lleol o'r farn ei bod yn briodol gwneud newidiadau penodol er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn gadarn. Ni ddylai fod ond nifer cyfyngedig iawn o newidiadau penodol a byddant yn adlewyrchu'r brif dystiolaeth. Dylent effeithio yn unig ar rannau



cyfyngedig o'r cynllun yn hytrach nag ar ei hanfod. Er mwyn i'r Arolygydd allu cynnwys unrhyw **newidiadau penodol** o'r fath, yn unol â dymuniad yr awdurdod cynllunio lleol, yn yr Adroddiad rhwymedig, bydd yn hanfodol bod ymgynghoriad boddhaol wedi'i gynnal yn y lle cyntaf a bod y newidiadau penodol yn cyd-fynd â'r gwerthusiad cynaliadwyedd. Dylid cynnal ymgynghoriad o'r fath mor gynnar â phosibl er mwyn osgoi oedi'r broses archwilio.

O ganlyniad, i'w gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau rhesymegol i gael eu harchwilio yn y ffordd fwyaf perthnasol a chyflymaf, rydym yn awgrymu y dylai'r awdurdod cynllunio lleol wrth gyflwyno'i Gynllun i gael ei archwilio, gynnal ymgynghoriad cyhoeddus (am gyfnod o 6 wythnos) i hysbysebu **atodiad** i'r cynllun sydd wedi'i adneuo sy'n nodi'r newidiadau penodol arfaethedig. Dylai'r dogfennau egluro nad cyfle i ychwanegu at y sylwadau gwreiddiol yw hwn. Byddai'r atodiad yn rhan bwysig o'r pecyn o ddogfennau i'w gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad a'r Arolygiaeth Gynllunio adeg cyflwyno'r cynllun sydd wedi'i adneuo i gael ei archwilio. Byddai'r awdurdod cynllunio lleol yn coladu'r ymatebion sy'n dod i law a'u hanfon yn uniongyrchol at yr Arolygydd Cynllunio er mwyn sicrhau bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ystyried newidiadau o'r fath ar ddechrau'r broses archwilio. Nid oes angen i'r awdurdod cynllunio lleol wneud sylw ar yr ymatebion sy'n dod i law. I fod yn eglur ac er hwylustod, dylai'r atodiad ddangos y polisïau a'r testun newydd/diwygiedig ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau.

Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried gwneud **newidiadau sylfaenol** sy'n effeithio'r strategaeth ac sydd mor arwyddocaol a mawr fel eu bod yn effeithio ar hanfod y cynllun, yna bydd rhaid iddo ystyried yn ofalus sut mae symud ymlaen gyda'r cynllun. Gallai newidiadau o'r fath effeithio ar 'gadernid' y cynllun. Bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried a fyddai gwneud newid o'r fath yn codi amheuan ynghylch â chadernid cynllun wedi'i adneuo.


Nid oes angen cynnal ymgynghoriad ar **newidiadau golygyddol bach** i gywiro ffeithiau ac felly nid oes angen eu cynnwys yn hysbyseb yr atodiad am fod gan yr Arolygydd yr hawl i wneud newidiadau golygyddol o'r fath. Yn syml iawn, gellir rhestru'r newidiadau hyn mewn atodlen i'w chyflwyno ynghyd â'r Cynllun adeg yr archwilio.

Ni ddylai fod angen newid **Amserlen y Cynllun**. Nid oedi'r broses o gyflwyno'r Cynllun nag oedi'r broses archwilio yw bwriad y cam hwn; bydd yr Arolygydd Cynllunio yn trefnu dyddiad i gyfarfod cyn yr archwiliad a dyddiad ar gyfer agor y gwrandawladau.

Caiff canllawiau cynllunio cenedlaethol eu diwygio maes o law i adlewyrchu cyngor y llythyr hwn.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Cynlluniau Datblygu (manylion isod).

Yn gywir



Rosemary Thomas

Prif Gynllunydd/Dirprwy Gyfarwyddwr
Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y Gangen Cynlluniau, Rheoli a Pherfformiad (PMP)

Mark Newey – (Cyd-bennaeth y Gangen) 029 2082 3732

Y Gorllewin a'r De

Elaine Ancrum 029 2082 3710

Hywel Butts 029 2082 1619

Emma Gladstone 029 2082 3734

Y Gogledd a'r Canolbarth

Robert Newton 01492 542102

Heledd Cressey 01492 542108

Nick Iles 029 2082 3713

Carole Morgan 029 2082 6956